## HYSBYSIAD O FWRIAD I WNEUD CAIS AM ORCHYMYN I GAU PRIFFORDD
## ADRAN 116 O DDEDDF PRIFFYRDD 1980

I bwy bynnag a fynno wybod:

SYLWER bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, wrth arfer ei bwerau dan Adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980, yn bwriadu gwneud cais i'r Llys Ynadon yng Nghaerdydd ar 13fed Chwefror 2026 am orchymyn i gau'r briffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

EFFAITH y gorchymyn arfaethedig, os yw'n cael ei wneud, fydd cael gwared â'r holl hawliau tramwy cyhoeddus dros y briffordd a ddisgrifir yn yr Hysbysiad.

Y RHESWM dros y cais am orchymyn yw nad yw'r briffordd yn angenrheidiol.

Gellir archwilio'r CYNLLUNIAU i gau'r briffordd y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad, am ddim yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB yn ystod oriau swyddfa arferol, neu ar wefan y Cyngor:
https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/ yn Gymraeg, ac ar https://www.bridgend.gov.uk/council/legal-notices-and-orders/ yn Saesneg

Os oes ganddwch chi'n unrhyw gwestiannau ynglyn âr cynllunoau, ebostiwch highwaysearches@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643113 os gwelwch yn dda.

Mae gan UNRHYW BERSON, y mae'n ofynnol rhoi rhybudd iddo, sy'n defnyddio'r briffordd neu a fyddai'n cael ei dramgwyddo gan wneud y gorchymyn hawl i gael ei glywed mewn unrhyw wrandawiad. Os ydych eisiau gwrandawiad, dylech roi gwybod yn ysgrifenedig i'r rhai sydd wedi llofnodi isod, gan nodi sail eich gwrthwynebiad, dim hwyrach na 8fed Ionawr 2026.

Sylwer y gall y Llys Ynadon ystyried yr holl sylwadau sy'n dod i law yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus.

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.*
*Os byddwch yn cael anhawster wrth ymateb yn ysgrifenedig neu os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, megis print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Is-adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn y cyfeiriad isod neu ffoniwch y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 643643 dyfynnwch y cyfeirnod HIG001-1137.*

**Dyddiedig: 4/12/2025**
K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.

## AMSERLEN
## DISGRIFIAD O'R BRIFFORDD SYDD I'W CHAU

Stribyn afreolaidd ar hyd ymyl deheuol y Ffordd Osgoi A48, gerllaw ffens derfyn ogleddol y bwyty Burger King newydd sydd wedi'i leoli ar Dir ym Maes Parcio Wickes, Tredŵr, Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r ardal sydd i'w chau oddeutu 0.8m o led ar ei phwynt lletaf, ac oddeutu 41.7m o hyd ar ei hiraf, a chanddi arwyneb o thua 25.4 metr sgwâr.

Mae'r ardal o ymyl y briffordd bresennol y bwriedir ei chau wedi'i nodi ar y lluniau atodol:
Cynllun Gorchymyn Cau, llun rhif 20-382/100-162 rev 04, a
Cyd-destun y Cynllun Gorchymyn Cau Safle, llun rhif 20-382/100-164 rev 02.